# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 1 Mawrth 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13260

## 124

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-5 a 7-8. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar ôl cwestiwn 2.

Am 14.23, gwnaeth y Llywydd ddyfarniad bod yr iaith a ddefnyddiwyd gan Gareth Davies yn ymwneud â chwestiwn ar safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn wahaniaethol yn ei barn hi, ac roedd yn disgwyl i'r Aelod ymddiheuro am ei ddewis o eiriau.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Dechreuodd yr eitem am 14.24

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.02

Gofynnwyd y 3 chwestiwn.

## 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.15

**Atebwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith cap prisiau newydd Ofgem ar drigolion yng Nghymru?

**Atebwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff y Gweinidog roi datganiad yn sgil RCN Cymru yn gwrthod cynnig cyflog ychwanegol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.39

Gwnaeth Jenny Rathbone ddatganiad am - Y genhinen fel symbol o ddiwylliant Cymru.

Gwnaeth Sarah Murphy ddatganiad am - Wythnos Ymwybyddiaeth Anhwylderau Bwyta (27 Chwefror i 5 Mawrth).

## 6 Dadl Plaid Cymru - Cysylltiadau diwydiannol

Dechreuodd yr eitem am 15.43

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8210** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn mynegi undod â gweithwyr y sector cyhoeddus ledled Cymru sy'n gweithredu'n ddiwydiannol mewn ymateb i flynyddoedd o doriadau tymor real i'w cyflog.

2. Yn credu bod gallu gweithwyr i fynd ar streic i wella eu cyflog ac amodau yn hawl ddemocrataidd sylfaenol.

3. Yn credu bod Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) Llywodraeth y DU yn ymosodiad uniongyrchol ar bobl sy'n gweithio a'r undebau llafur y maent yn trefnu o fewn iddynt.

4. Yn gresynu at y ffaith y byddai'r Bil yn rhoi pŵer gorfodol sylweddol i Lywodraeth y DU gwtogi ar allu undebau llafur a gweithwyr i gymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol cyfreithlon.

5. Yn gresynu at y ffaith bod y Bil hefyd yn gwrthdaro ag amcanion y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, yn enwedig ymrwymiad gwneud Cymru'n genedl gwaith teg.

6. Yn cefnogi pob undeb llafur ac holl weithwyr y sector cyhoeddus yn eu hymdrechion i wrthsefyll y Bil.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i agor trafodaethau ynghylch datganoli cyfraith cyflogaeth er mwyn sicrhau hawliau cyfunol a phwerau bargeinio gweithwyr yng Nghymru.

Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) Llywodraeth y DU (Saesneg yn unig)

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 35 | 45 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth y DU yn eu cymryd i ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu gweithredu diwydiannol i sicrhau bod lefelau gwasanaeth gofynnol yn cael eu gosod mewn sectorau allweddol yn ystod cyfnodau o streic.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 33 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod ac yn parchu cryfder y teimladau a ddangoswyd gan aelodau'r undebau llafur drwy bleidleisiau ar streicio a chynnal gweithredu diwydiannol.

2. Yn credu bod Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymosodiad ar undebau llafur a hawl sylfaenol gweithwyr i streicio.

3. Yn gresynu at y diffyg ymgysylltu llwyr gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar y ddeddfwriaeth hon cyn ei chyflwyno ac yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru fel y nodir yn ei Datganiad Ysgrifenedig a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

4. Yn cefnogi Llywodraeth Cymru, a'r holl undebau llafur a gweithwyr y sector cyhoeddus yn eu hymdrechion i wrthsefyll y Bil.

Datganiad Ysgrifenedig: Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol)

Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol)

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 21 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8210** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod ac yn parchu cryfder y teimladau a ddangoswyd gan aelodau'r undebau llafur drwy bleidleisiau ar streicio a chynnal gweithredu diwydiannol.

2. Yn credu bod Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymosodiad ar undebau llafur a hawl sylfaenol gweithwyr i streicio.

3. Yn gresynu at y diffyg ymgysylltu llwyr gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar y ddeddfwriaeth hon cyn ei chyflwyno ac yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru fel y nodir yn ei Datganiad Ysgrifenedig a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

4. Yn cefnogi Llywodraeth Cymru, a'r holl undebau llafur a gweithwyr y sector cyhoeddus yn eu hymdrechion i wrthsefyll y Bil.

Datganiad Ysgrifenedig: Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol)

Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol)

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 13 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Y Gymraeg

Dechreuodd yr eitem am 16.20

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8212** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021 i 2026.

2. Yn mynegi pryder am y ffaith bod Cyfrifiad 2021 wedi datgelu y bu gostyniad o dros 20,000 yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

3. Yn credu bod y Gymraeg yn ased diwylliannol sy'n dod â llawer o fanteision i Gymru.

4. Yn cydnabod yr amrywiaeth mewn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych i mewn i gyfleoedd i ehangu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021 i 2026

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 23 | 45 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod ffynonellau data eraill yn dangos bod nifer cynyddol o bobl yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg a bod niferoedd cynyddol o blant yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn croesawu:

(a) bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cyhoeddi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd i gynyddu mynediad at gyfleoedd dysgu Cymraeg ar draws ysgolion o bob categori iaith;

(b) gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i gryfhau'r Gymraeg ar lefel gymunedol; a

(c) gwaith ein sefydliadau partner megis Mudiad Meithrin, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Mentrau Iaith, ac eraill, i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 9 | 12 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y’i diwygiwyd:**

**NDM8212** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021 i 2026.

2. Yn mynegi pryder am y ffaith bod Cyfrifiad 2021 wedi datgelu y bu gostyniad o dros 20,000 yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

3. Yn credu bod y Gymraeg yn ased diwylliannol sy'n dod â llawer o fanteision i Gymru.

4. Yn cydnabod yr amrywiaeth mewn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych i mewn i gyfleoedd i ehangu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021 i 2026

6. Yn cydnabod bod ffynonellau data eraill yn dangos bod nifer cynyddol o bobl yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg a bod niferoedd cynyddol o blant yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg.

7. Yn croesawu:

(a) bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cyhoeddi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd i gynyddu mynediad at gyfleoedd dysgu Cymraeg ar draws ysgolion o bob categori iaith;

(b) gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i gryfhau'r Gymraeg ar lefel gymunedol; a

(c) gwaith ein sefydliadau partner megis Mudiad Meithrin, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Mentrau Iaith, ac eraill, i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.44, canwyd y gloch am 17.07 a gohiriwyd y cyfarfod tan y cyfnod pleidleisio.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.13

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.17

**NDM8211** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Dydd Gŵyl Dewi – hunaniaeth Gymreig yng Nghasnewydd

Daeth y cyfarfod i ben am 17.44

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2023**